# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2022

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 16eg o Fawrth, 2022** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod misol y Cygnor** |
| **LLEOLIAD** | **Aml leoliad - Clwb Mountain Rangers / Teams** |
| **CADEIRYDD** | **Jason Hunt** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd Jason Hunt **(JH)** y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL HENO ROEDD:</u>**<br><br>Gwilym Thomas **(GT)**, Nerys Evans **(NE)**, Gwilym Williams **(GW)**, Huw Rowlands **(HR)**, Elin Evans **(EE)**, ac Gillian Thomas (Clerc). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alan Hughes **(AH)**, Aeron Jones **(AJ),** Michelle Williams **(MW)**, Peter Roberts **(PR)** **a** Tom Ellis **(TE)**, |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION CHWEFROR 2022** |
| | Cynigwyd y cofnodion y gywir gan GT gyda GW yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 5. | **MATERION YN CODI** |
| | **a)** **<u>MATERION GORFODAETH</u>**<br>Ceirnog Belan, Rhos Isaf – Cais cynllunio yn annilys ers 2019<br>Penceunant, Rhosisaf – Dim cais cynllunio dilys<br>Anfonwyd y cwynion ymlaen i'r Adran Gynllunio gyda lluniau a ddarparwyd gan yr aelodau. Bydd rhaid cwblhau gwybodaeth ychwanegol ar gyfer yr Adran Orfodaeth - cytunodd NE gymorth y clerc<br><br>**b)** **<u>AEL Y BRYN, RHOSGADFAN</u>**<br>Gweler 7a –<br><br>**c)** **<u>MW - BIN HALEN BRO CADFAN</u>**<br>Cais gan MW I'r clerc wneud ymholiadau am ail sefydlu'r bin halen –<br>Ymateb gan Beiriannydd Ardal Arfon yn cadarnhau bydd yn ei gynnwys ar y rhestr o finiau i'w adnewyddu / dim amserlen. |



*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | **d) GW - CHWAREL MOEL TRYFAN**<br>Gofynnodd GT yn flaenorol am ddiweddariad parthed ail gychwyn cyfarfodydd y chwarel –<br>Nid oedd y clerc wedi derbyn dyddiad penodol ond cadarnhad nid yw'r gronfa ar agor hyd yn hyn.<br><br>**e) CYF 3282401 - GORCHYMYN ADDASU CYNGOR GWYNEDD (LLWYBR TROED RHIF 161 YNG NGHYMUNED LLANWNDA) 2021**<br>Nid oedd angen gwybodaeth bellach gan y Cyngor gan fod y wybodaeth flaenorol yn gyfredol.<br><br>**f) CAIS AM FOLARD I BONT BRO GILBERT, RHOSTRYFAN**<br>Derbyniwyd ymateb gan Ysgrifenyddes Pennaeth Adran Amgylchedd ar ran Iwan ap Trefor fyddent yn ymdrechu i asesu'r sefyllfa bresennol ac archwilio gwahanol opsiynau gyda'r bwriad o gadw'r lleoliad yn glir a di-rwystr yn ogystal ag annog modurwyr i arafu.<br><br>**g) LLWYBR BRYN GWYN**<br>Nid oedd y gwaith wedi cychwyn hyd yn hyn oherwydd salwch teuluol. DH yn gobeithio cychwyn 28/03/22, bydd yn cysylltu i gadarnhau cyn diwedd yr wythnos.<br><br>**h) LLWYBR HEB YSTYR - STAD GWÊL Y FOEL, DINAS**<br>Yn dilyn ail edrych ar leoliad y llwybr nid oedd yr aelodau yn fodlon mae llwybr i gae chwarae yw hwn fel esbonnir fis diwethaf. Y Clerc I wneud ymholiadau pellach |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a) CYSGODFA BWS RHOSGADFAN**<br>Cadarnhaodd y clerc bod y rhannau arbenigol bellach wedi'u derbyn ond nid yw'r gwaith wedi cychwyn oherwydd iechyd y contractwr. Disgwylir iddo ddechrau yn fuan.<br><br>**b) RHEILIAU CAE CHWARE RHOSGADFAN**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau pellach gan Beiriannydd Arfon am fethu a chyfarfod a GT ar y safle.<br>Cytunodd yr aelodau ei bod yn hanfodol bwysig i dderbyn adborth bellach gan y Cyngor Sir cyn symud ymlaen.<br><br>**c) CAIS GAN BWYLLGOR MYNWENT HERMON, RHOSGADFAN**<br>Trafodwyd cais ysgrifenedig gan ymddiriedolwyr y fynwent i'r Cyngor Cymuned gysidro mabwysiadu Mynwent Hebron<br>Y clerc I ofyn I Bryn Hughes ac Un Llais Cymru am adborth yn seliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd.<br><br>**d) CHWAREL FOEL TRYFAN C21/0721/17/AC**<br>Derbyniwyd gwybodaeth bod y cais cynllunio uchod wedi ei gytuno gan Gyngor Gwynedd I ganiatáu cynnydd yn yr allbwn cyffredinol o 5 i 9 llwyth y dydd yn barhaol.<br>Nid oedd y Cyngor wedi derbyn gair ers cytuno i gynnydd i'r allbwn dros dro am gyfnod o ddau fis ym mis Mawrth 2021.<br>Y clerc i wneud ymholiadau<br><br>**e) AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2022-2023 – ADNEWYDDU MANYLION AELODAETH**<br>Cynigiodd EE I dderbyn y pris ac adnewyddu'r aelodaeth gyda NE yn eilio a phawb yn cytuno - y clerc i weithredu.<br><br>**f) ETHOLIADAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**<br>Rhannwyd ffurflenni aelodaeth gyda'r aelodau. Adroddodd y clerc bod dwy ffordd i'w cyflwyno bellach, drwy law I Swyddfa'r Cyngor yng Nghaernarfon neu drwy e-bost i enwebidadau@gwynedd.llyw.cymru Bydd angen ei dychwelyd rhwng 21/03/22 a diwedd y cyfnod enwebu sef 4pm ar y 05/04/22 |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*

| | |
|---|---|
| | **g) <u>CEISIADAU AM NAWDD</u>**<br>Y clerc i hysbysebu bod cronfa nawdd y Cyngor yn agored i dderbyn ceisiadau hyd at y 6ed o Ebrill 2022<br><br>**h) <u>CYTUNED Y LLWYBRAU / CYSODFANNAU / CAEAU CHWARAE / MYNWENT CEFNFAES</u>**<br>Y clerc i hysbysebu ar y dudalen Weblyfr a gwefan y Cyngor |
| 7. | **MATERION CYNLLUNIO** |
| | a) **<u>RHIF APÊL/APPEAL REF: APP/Q6810/A/21/3282860 –</u>**<br>Ael Y Bryn, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7LB<br>Cais ar gyfer darparu 2 cabin gwersylla ynghyd a phwll nofio a chreu mynedfa gerbydol o'r newydd, llecynnau parcio a throi.<br>Cytunodd yr aelodau i gofrestru eu gwrthwynebiad i'r apêl am y rhesymau canlynol:<br><br>• Rhesymau dros wrthwynebu'r cais gwreiddiol gan Gyngor Gwynedd ar 23/07/21<br>• Ni lynwyd yn wrthwynebiadau a rheolau Cyngor Gwynedd a dechreuwyd ar waith gan yr ymgeisydd a'i adrodd i Gyngor Gwynedd ar 26/10/21<br><br>b) **<u>RHIF CAIS/APP REF: C21/1062/24/AM - MOEL ISAF, RHOS ISAF, LL54 7LY -</u>**<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Adeiladu tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol<br>Penderfyniad y Cyngor - Dim gwrthwynebiad<br><br>c) **<u>RHIF CAIS/APP REF: C22/0116/24/DT - Y LLECYN, RHOS ISAF, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7NG</u>**<br>**<u>Dilyn a Darganfod</u>**.<br>Cais am osod dwy ffenestr gromen ym mlaen a chefn yr eiddo ynghyd â gosod mynedfa newydd ac estyniad unllawr at ochr yr eiddo<br>Penderfyniad y Cyngor - Dim gwrthwynebiad |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |
| | **a) <u>CYSONIAD</u>**<br>Cynigwyd y cysoniad yn gywir gan EE gyda GW yn eilio a phawb yn cytuno |

| | | |
|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/03/2021** | **£ 8,576.70** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/03/2021** | **£ 44,497.15** |
| **GWARGED** | **2021 / 2022** | **£ 17,702.08** |
| | **CYFANSWM** | **£ 70,775.93** |

**<u>I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC</u>**

| | | |
|---|---|---|
| - | | - |
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/02/22** | **£ 9,902.20** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/02/22** | **£ 63,341.73** |
| | **CYFANSWM** | **£ 73,243.93** |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR DDATGANIADAU'R BANC**

| Dyddiad | | Rhif :- | Swm :- |
|---|---|---|---|
| 19.01.22 | Atgyweirio cysgodfan Rhosgadfan | 101639 | £1,571.00 |
| | | **CYFANSWM** | **£ 1,571.00** |

**LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.03.22 | Cyflog a threuliau clerc | 101641 | £575.00 |
| 16.03.22 | Aelodaeth Un Llais Cymru | 101642 | £322.00 |
| | | **CYFANSWM** | **£ 897.00** |

**Cyfansawm Cywir y Cyfrifon Banc felly** **£ 70,775.93**

9 **GOHEBIAETH**

a) **E01-22 | DYFARNIAD CYFLOG CENEDLAETHOL 2021/22**
Y wybodaeth wedi ei gyfeirio ymlaen i ddarparwyr cyflog y Cyngor. Byddent yn addasu cyflog y clerc erbyn mis nesaf ac yn darparu ôl dal am 2021.

b) **GWELEDIGAETH CANOLFAN LLEU VISION**
Croesawyd y wybodaeth

c) **IWAN AP TREFOR – PONT BRO GILBERT**
Gweler 5 (f)

d) **RHEOLIADAU ETHOLIADAU LLEOL (DIWYGIADAU AMRYWIOL A CHANLYNIADOL) (CYMRU) 2022**
Croesawyd y wybodaeth

10. **MATERION / LLEOL / AELODAU**

**a)** **MW - CHWAREL FOEL TRYFAN C21/0721/17/AC**
Derbyniwyd gwybodaeth bod cais cynllunio i gynyddu llwyth o 5 i 9 y dydd yn barhaol wedi ei gytuno gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar. Y Clerc I ofyn i'r Cyngor Sir am adborth pan nad oedd y wybodaeth wedi ei gyflwyno I Gyngor Cymuned Llanwnda

**b)** **TŶ PWMP, RHOSTRYFAN**
Cafwyd gwybodaeth am waith wedi ei gychwyn i ledaenu/adeiladu ar y safle - y clerc wedi gyrru ymholiad ymlaen.

**c)** **EE - CAIS AM FINIAU YCHWANEGOL - LON EIFION**
Y clerc i weithredu

**d)** **TUDALEN WEBLYFR ( FACEBOOK ) Y CYNGOR**
Lleisiodd yr aelodau bryderon am rhai ffeithiau camarweiniol sydd wedi ei gosod yn ddiweddar ar y dudalen a gofynnwyd I'r clerc sicrhau mad dim ond y clerc ar Cadeirydd fydd a'r hawl I bostio yn y dyfoldol

e) **GT - DARPARIAETH TRYDAN I STAD GWÊL Y FOEL, DINAS**


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*

| | |
|---|---|
| | Adroddodd yr aelodau bod problemau yn parhau gyda darpariaeth trydan i'r stad sydd yn golygu bod llawer i deulu yn gorfod talu costau dychrynllyd am storio eu dodrefn ac anheddau dros dro.<br>Y clerc i wneud ymholiadau. |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 20 o Ebrill 2022 – Canolfan Felin Wnda/ Capel Rhostryfan am **6.30**<br><br>**NE – CLADDU COED BYW YM MYNWENT CEFNFAES** |

Llofnodwyd gan ………………………………………………………………….. Dyddiad ……………………………………………………….

*Clerc Cygor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*